Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

# Gweithgaredd 9:
## Sut ydym yn ei wneud?

Dylid defnyddio'r gweithgaredd yma gyda disgyblion sydd â'u menter yn ymwneud â chynhyrchu.

### Amcan Dysgu

- Darparu cyfle i'r disgyblion weithio gydag eraill i greu cynnyrch addas.

### Nodweddion Entrepreneuriaeth

**Creadigedd**

- Datrys problemau

**Cysylltiadau**

- Gweithio gydag eraill
- Cyfathrebu

**Trefniadaeth**

- Cynllunio

### Gweithgareddau Dysgu

Gofynnwch i'r disgyblion drafod sut byddant yn trefnu eu hunain ar gyfer paratoi eu cynhyrchion yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- *Beth ydych ei angen i wneud eich cynnyrch? E.e. offer, deunyddiau, gweithle.*
- *Pa mor ddiogel, dibynadwy a chynaliadwy ydy'ch cynnyrch?*
- *Faint ydych chi'n credu y byddwch eu hangen?*
- *Faint o amser ydych yn credu y bydd angen i gynhyrchu'r holl nwyddau yr ydych yn ystyried y gallwch eu gwerthu?*
- *Ydych chi'n bwriadu derbyn archebion ar gyfer eich cynnyrch, neu baratoi swm penodol neu gyfuniad o'r ddau?*

Cyflwynwch ac eglurwch gydsyniad rheoli ansawdd. Mae pobl yn fwy tebygol o brynu cynhyrchion sy'n edrych a theimlo'n dda.

Gan weithio yn unigol neu mewn grwpiau mae'r disgyblion yn cynhyrchu prototeip o'r cynnyrch gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o gynhyrchu. Gallai hwn fod yn weithgaredd cystadleuol. Wrth iddynt baratoi'r cynnyrch anogwch y disgyblion i wirio bod eu gwaith o'r safon uchaf yn ystod bob cam o'r broses.

Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi'r deunyddiau a ddefnyddir, a'r amser a gymerir i gynhyrchu un eitem. Trafodwch y gwahanol ddulliau a chytuno ar y dull cynhyrchu mwyaf effeithiol i'r disgyblon ei fabwysiadu ar gyfer eu menter.

Gofynnwch i'r disgyblion amcangyfrif y gost o gynhyrchu'r prototeip. Trafodwch sut i gadw'r costau yn isel – a ellir defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu neu ddeunyddiau sydd ar gael yn rhad ac am ddim?

# Gweithgaredd 9:
## Sut ydym yn ei wneud?

**Cynradd Uwch**

### Canlyniad dysgu

Disgyblion yn cyd-weithio mewn timau a chytuno ar gyfrifoldebau a rolau.

### Adnoddau sydd eu hangen

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol
- Deunyddiau i gynhyrchu eu nwyddau

## Cwricwlwm ar gyfer Cymru

### Meysydd Dysgu a Phrofiad

**Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth ac yn defnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Gwyddoniaeth a thechnoleg**

- Mae syniadau dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ateb anghenion a gofynion cymdeithas.

### Sgiliau Trawsgwricwlaidd

**1. Llythrennedd**

**Siarad**

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

**Gwrando**

- Gwrando ar gyfer ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando ar gyfer ymddiddan cydweithredol

**2. Rhifedd**

- Llythrennedd ariannol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government